**CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 1af Tachwedd 2017 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Ms. J. McAlpine (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs. J. Butterfield MBE, Mrs. J. Chamberlain-Jones, Ms. J. Hughes, B. Mellor, Ms. V. Roberts, a Miss C.L. Williams.

Hefyd yn mynychu: y Cynghorydd Councillor T. Thomas

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

**29. YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball, K.R. Jones, Mrs W. Mullen James (Cadeirydd), ac A.J. Rutherford.

**30. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Cyn ystyried y rhain, atgoffodd y Cadeirydd a'r Clerc yr Aelodau o bolisi'r Cyngor Tref a oedd yn gofyn i'r Aelodau hysbysu'r Cadeirydd o unrhyw geisiadau yr hoffent gael eu trafod cyn i'r cyfarfod gychwyn.

Ystyriodd yr Aelodau y Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir arnynt nawr.*

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

| ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO | |
|---|---|
| 30.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE** 139-141 Ffordd Wellington, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Foryd<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** Mrs. J. Butterfield<br>A. James<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2017/0967<br><br>Adeiladu canopi rhydd i flaengwrt.<br><br>Yr ymgeisydd yw Mr. S. Darbey o'r cyfeiriad uchod.<br><br>***PENDERFYNIAD:*** *Dim gwrthwynebiad* |
| | |
| | |

| | |
|---|---|
| 30.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE** 40 Brighton Road, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** Ms. J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2017/0964<br><br>Newid saith o fflatiau i ffurfio 3 fflat oll-gynhwysol.<br><br>Yr ymgeisydd yw Mr. Mark Dixon, Cyngor Sir Ddinbych.<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| | |
| 30.3 | **LLEOLIAD Y SAFLE** Tir yn Ne-ddwyrain y Rhyl rhwng Bro Deg a Ffordd Dyserth, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Trellewelyn<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** A.S. Johnson<br>Mrs. W. Mullen-James<br>Ms. V. Roberts<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2017/0925<br><br>Amnewid mathau tai ar leiniau 172, 173, 297, 298, 299, 300, 301 a 302 (newid i gynllun a gymeradwywyd yn flaenorol ar gyfer cyfnodau 2 a 3 45/2011/0766)<br><br>Yr ymgeiswyr yw Anwyl Homes, Anwyl House, Parc Dewi Sant, Ewlo, Sir y Fflint.<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| | |

## 31. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: …………………….......